

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 4ydd 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gary Thomas, Alwyn Jones, a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Archwilio Asedau.

Adroddwyd fod cyflwr cyffredinol y llochesi bws yn iawn gyda man waith angen ei wneud yn Llanfor a Chefnddwysarn. Cytunwyd i ofyn i Sion Jones gwblhau'r gwaith.

c) Adborth o gyfarfod Adfywio Ardal Ni.

Cafwyd adroddiad gan Bethan Thomas o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod. Roedd amryw o gynlluniau o dan sylw pe bai byddai ffynhonellau ariannol ar gael, gan gynnwys llwybr troed o Frongoch i Bala

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.

ii) Gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro rhwng Bala a Chwmtirmynach ar y 6/6/24 (Taith Feiciau Prydain – Grŵp Merched).

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Recriwtio aelod newydd i Awdurdod y Parc.

c) Dŵr Cymru.

i) Gwahoddiad i'r safle i gael diweddariad am brosiect Llyn Celyn, 7/6/24. Roedd Alwyn Jones, Eifion Davies a Bethan Thomas am fynychu.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/63/281 - Cais rhannol ôl-weithredol am do newydd gydag uchder bondo uwch yn y cefn gan greu llety ychwanegol ar lefel llawr cyntaf, tynnu 2 simnai ac ychwanegu 2 simnai newydd, gosod 4 ffenestr dormer a 4 ffenestr to, addasu/ychwanegu ffenestri a drysau, a thirlunio gan gynnwys creu llawr caled ar gyfer parcio a man troi. Gorseddau, Cwmtirmynach,

Nid oedd y cyngorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniadau.

i) Rhandal cyntaf y Praesept - £6,500.

b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.

Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwmo i roi sylw i un risg, sef diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu Alwyn Jones i'r cyfrif banc arlein fel ei fod yn gallu awdurdodi taliadau mae'r clerc yn ei wneud. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynnyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y manau perthnasol.

b) Taliadau.

Cytunwyd i dalu – Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd).

vii) Materion lleol.

a) Roedd cyflwr yr hen Ysgol Fritanaidd yn Nglanrafon yn dal i fod yn bryder i'r cynghorwyr. Cytunwyd i ail gysylltu â Chyngor Gwynedd a hefyd i gynghori'r trigolion i wneud yr un fath yn y gobeithio y byddai hyn yn symud pethau yn eu blaen.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 2il am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.